Y Bar Gorau Un

Cynllun Gwobrwyo sy'n hyrwyddo rheoli tai trwyddedig yn gyfrifol a diogel

Cynnwys:

Pennod 1 Datganiad o ddiben – nodau ac amcanion y Cynllun

Pennod 2 Pethau i'w hystyried cyn rhoi'r Cynllun Gwobrwyo ar waith

Pennod 3 Rhoi Cynllun Gwobrwyo'r Bar Gorau Un ar waith

Atodiad 1 Swp-lythyrau cyhoeddusrwydd cyn lansio

Atodiad 2 Taflen gyhoeddusrwydd cyn lansio

Atodiad 3 Ffurflen Gais y Bar Gorau Un

Atodiad 4 Nodiadau Cyfarwyddo

Atodiad 5 Taflen Sgorio'r Bar Gorau Un

Atodiad 6 Tystysgrif y Wobr – enghraifft

Pennod 1

Y Bar Gorau Un – Cynllun Gwobrwyo sy'n hyrwyddo rheoli tai trwyddedig yn gyfrifol a diogel

Cyflwyniad – nodau ac amcanion y Cynllun

Her Iechyd Cymru

1. Dewiswyd themâu allweddol Her Iechyd Cymru oherwydd ystyrir bod y materion hynny yn gyfran sylweddol o'r salwch y gellid ei osgoi. Mae cwtogi ar ddamweiniau ac anafiadau ac atal niwed drwy gamddefnyddio alcohol a sylweddau eraill yn ddwy o themâu allweddol Her Iechyd Cymru. Roedd y Cynllun Gwobrwyo hwn, sy'n seiliedig ar gynllun a lansiwyd gan Gynllun 'Safe' Canol Dinas Manceinion yn 2001, yn defnyddio arolygiadau amlasiantaeth er mwyn annog trwyddedigion i reoli eu safleoedd mewn modd cyfrifol a diogel, gofalu am eu cwsmeriaid a pheidio ag annog goryfed yn gymdeithasol sy'n aml yn arwain at droseddu a thrais.

2. Mae nifer o bethau'n llywio'r cynllun hwn, a dyma'r rhai sy'n berthnasol i Her Iechyd Cymru:
    - Lleihau risg niwed, troseddu ac anrhefn mewn cysylltiad ag alcohol,
    - Hyrwyddo dealltwriaeth o sut y gall rheolaeth dda ar dai trwyddedig gwtogi ar droseddau ac anrhefn mewn cysylltiad ag alcohol, lleihau effeithiau niweidiol goryfed yn gymdeithasol, a hefyd gwella proffidioldeb busnesau unigol a gwneud ardal yn fwy deniadol,
    - Hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd am fanteision dewis cymdeithasu mewn safleoedd a reolir yn dda, gan dawelu meddyliau fwyfwy a hyrwyddo cymdeithasu cynhwysol, a hyrwyddo iechyd meddwl a lles drwy ryngweithio cymdeithasol

3. Dyma fanteision eraill, nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â Her Iechyd Cymru:
    - Nodi a gwobrwyo gweithredwyr cyfrifol a rhannu arfer da,
    - Gwella gwybodaeth a sgiliau am orfodi ac asiantaethau rheoleiddiol, trwyddedigion a staff bar i ymdrin yn effeithiol â materion sy'n gysylltiedig â rheoli tai trwyddedig,
    - Creu cerbyd cadarnhaol i bob sector o'r economi nos gydweithio mewn partneriaeth.

4. Fel y nodwyd, mae cam-drin alcohol a chwtogi ar ddamweiniau ac anafiadau yn rai o themâu allweddol Her Iechyd Cymru. Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rhoi cyfle i Awdurdodau Lleol fynd i'r afael â'r materion hyn drwy amodau a gysylltir wrth drwyddedau a thrwy gamau gorfodi. Dangosodd Arolwg Troseddu Prydain 2004 fod 51% o ymosodiadau a gofnodwyd wedi digwydd mewn tai trwyddedig, ac ymhellach fod cyfran sylweddol uchel o droseddu yn uniongyrchol ac anuniongyrchol gysylltiedig â thai trwyddedig a reolwyd yn wael.

5. Mae delio â digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn costio'n sylweddol i'r heddlu ac i'r GIG. Mae amcangyfrifon gan yr heddlu am ddelio â digwyddiadau

troseddau treisgar yn amrywio o £1,440 am achos o ymosodiad cyffredin i £21,442 am achos o glwyfo difrifol. Dywed amcangyfrif gan yr heddlu fod y gost o ymdrin â digwyddiad 'gwydro' yn £150,000[1].

Dengys y tabl isod faint y mae'n ei gostio i'r heddlu[2] ddelio â digwyddiadau unigol, sy'n digwydd fel rheol pan fo naill ai'r drwgweithredwr neu'r dioddefwr neu'r ddau ohonynt o dan ddylanwad alcohol (ffigurau 2003-4).

Trosedd	Cost
Trais yn erbyn yr unigolyn (cyfartaledd)	£10,100
Clwyfo Difrifol	£21,442
Clwyfo	£ 8,852
Arall	£ 8,056
Ymosodiad Cyffredin	£ 1,440
Dwyn (oddi wrth unigolyn)	£ 634
Difrod Troseddol	£ 866

6. Amcangyfrifir ei bod yn costio £1.7 biliwn y flwyddyn[3] i'r GIG ddelio â damweiniau ac anafiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Yng Nghymru, mae'r amcangyfrif hwn yn £750 miliwn y flwyddyn[4]. Mae 1.2 miliwn achos o drais cysylltiedig ag alcohol yn cael eu trin mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn, ac mae 40% o'r derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn gysylltiedig ag alcohol, sy'n codi i 70% rhwng hanner nos a 5am. Amcangyfrifir ei bod wedi costio £7.3 biliwn yn 2003[5]i'r gwasanaethau brys ac i'r GIG ddelio â throseddau ac anrhefn mewn perthynas ag ymddygiad cysylltiedig ag alcohol.

7. Yn ogystal â rhoi sylw i themâu Her Iechyd Cymru ynghylch cwtogi ar ddamweiniau ac anafiadau a chamddefnyddio alcohol a sylweddau, mae'r ymyriad hwn hefyd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n codi o dan y Strategaethau Cymdogaeth Lân a Throseddu ac Anrhefn y bydd awdurdodau lleol yn sefydliadau partner ynddynt. Mewn arolygon lleol, yn gyffredinol dim ond troseddu sy'n uwch ar y rhestr o bryderon preswylwyr na chreu a chynnal a chadw amgylchedd dymunol, glân. Mae alcohol yn effeithio ar agweddau lawer ar yr amgylchedd lleol, gan gynnwys
   - Canlyniadau yfed gormod o alcohol megis pasio dŵr a chwydu mewn mannau cyhoeddus,
   - Caniau, poteli a phetheuach eraill sy'n gysylltiedig ag alcohol yn cael eu gadael mewn mannau cyhoeddus,
   - Difrod troseddol sy'n gysylltiedig ag alcohol.

   Os caiff yr amgylchedd lleol ei ddiraddio ceir effaith ar iechyd meddwl a lles y preswylwyr; mewn achosion eithafol gallai preswylwyr fod ag ofn gadael eu cartrefi yn ystod yr oriau tywyll, gan arwain at arwahanrwydd cymdeithasol a straen.

---

[1] Amcangyfrif Heddlu Dyfed Powys 2006
[2] Costau Economaidd a Chymdeithasol troseddau yn erbyn Unigolion a Chartrefi 2003/4. Y Swyddfa Gartref www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs05/rdsolr3005.pdf
[3] Uned Strategaeth y Prif Weinidog, ' Alcohol Misuse – how much does it cost? Llundain: Y Llyfrfa 2003
[4] Ibid
[5] DR R Hussey, Awdurdod Iechyd Strategol Swydd Gaer a Glannau Mersi - papur i Gynhadledd IPSM 20 Ion 2004.

7. Mae’r cynllun hwn yn mynd i’r afael yn uniongyrchol â dwy o themâu allweddol Her Iechyd Cymru, sef camddefnyddio alcohol a chwtogi ar ddamweiniau ac anafiadau ac mae’n mynd i’r afael yn anuniongyrchol â thrydedd thema, sef iechyd meddwl a lles. Mae hefyd yn mynd i’r afael â materion diogelwch cymunedol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Pennod 2

Y Bar Gorau Un – Cynllun Gwobrwyo sy'n hyrwyddo rheoli tai trwyddedig yn gyfrifol a diogel

Rhoi Cynllun ar Waith

1. Ystyriaethau cychwynnol

Mae'n rhaid mynd i'r afael ag ystyriaethau cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn, gan gynnwys:

- Pwy yw'r grŵp targed?
- A gyflawnir y canlyniad dymunol?
- Sut y gellir cyrraedd y grŵp targed?
- Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y cynllun?
- Sut y caiff y cynllun ei werthuso?
- A fydd y cynllun yn cyflwyno gwerth am arian?

2. Grŵp Targed

Y grŵp targed ar gyfer yr ymyriad hwn yw'r trwyddedigion hynny sydd â thai trwyddedig. Yn y prosiect peilot yn Rhondda Cynon Taf roedd y rhain yn dafarndai, bariau a chlybiau nos, ond efallai bydd y rhai sy'n rhoi'r cynllun ar waith eisiau cynnwys hefyd safleoedd fel clybiau chwaraeon yn gategori ar wahân.

3. Cyflawni'r canlyniad dymunol

Diben y cynllun yw cwtogi ar nifer yr unigolion sy'n yfed gormod o alcohol yn y safleoedd sy'n cyfranogi, er mwyn cwtogi ar y damweiniau a'r anafiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol a chwtogi ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'n anodd mesur a yw'r canlyniad dymunol wedi'i gyflawni, oherwydd yn aml mae'n amhosib dweud a fu unigolyn yn yfed gormod mewn un safle neu wedi e.e. cael alcohol gartref neu mewn nifer o safleoedd cyn meddwi. Golyga hyn ei bod hefyd yn amhosibl felly honni'n bendant bod damweiniau ac anafiadau sy'n digwydd drwy fod yn feddw, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyflawnir yn feddw, yn uniongyrchol gysylltiedig â safle penodol. Mae hefyd yn wir y gallai preswylwyr sy'n poeni am safle penodol barhau i boeni amdano hyd yn oed ar ôl i welliannau sylweddol ddigwydd yno, ac fe allent gysylltu ymddygiad gwrthgymdeithasol â'r safle ar gam ar ôl gweld ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dod o'r safle neu gan y rheiny sy'n ei fynychu.

Byddai'r canlyniad dymunol yn cael ei gyflawni pe byddai llai o ddigwyddiadau'n cael eu hadrodd, gan gynnwys arestiadau, am ymddygiad sy'n feddw ac afreolus, pe bai llai o unigolion yn cyflwyno eu hunain i Glinigau Damweiniau ac Achosion Brys neu i'w meddyg gan eu bod yn dioddef anafiadau a gawsant pan oeddent yn feddw, neu a achoswyd iddynt gan unigolyn meddw, a phe byddai llai o ddigwyddiadau a difrod troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu

hadrodd i'r Heddlu a Wardeniaid Cymunedol gan safleoedd sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Gwobrwyo.

4. Cyrraedd y Grŵp Targed

Nodir y grŵp targed gan yr awdurdod lleol. Bydd gan yr awdurdod lleol fanylion yr holl dai trwyddedig yn ei ardal ar ei gronfeydd data ei hun, sy'n ei gwneud hi'n hawdd nodi'r safleoedd hynny.

Efallai yr hoffai'r partneriaid i'r cynllun hwn ystyried sawl safle y dylid eu cynnwys yn y Cynllun. Efallai na fydd digon o adnoddau ar gael i gynnwys yr holl dai trwyddedig mewn ardal, felly bydd rhaid penderfynu pa rai i'w cynnwys. Bydd hefyd elfen o hunanddewis, gan y bydd y safleoedd hynny a reolir yn dda yn debygol o weld manteision cymryd rhan ac yn dymuno cymryd rhan, er bod y buddiannau posibl o'u cynnwys yn gymharol lai na phe bai safle na reolir cystal yn ymuno. Mae hefyd yn wir y gallai'r safleoedd hynny na reolir cystal ddewis peidio â chyfranogi efallai.

Gwneir penderfyniad lleol ynghylch pa safleoedd i'w gwahodd i gymryd rhan, yn seiliedig ar wybodaeth leol am yr ardal a phenderfynu ymhle a gaiff y cynllun yr effaith bosibl fwyaf.

5. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y cynllun?

Yn y prosiect peilot y partneriaid oedd yr awdurdod lleol, yr heddlu, y grŵp Gwarchod Tafarndai lleol, y Gwasanaeth Tân, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, y Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) a'r fforymau trwyddedu lleol. Roedd gan bob un o'r sefydliadau partner ddiddordeb unigryw yn y cynllun, a gallent gael budd o fod yn bartneriaid iddo.

Efallai yr hoffai'r rhai sy'n cynnal y cynllun hwn gynnwys grwpiau eraill, fel y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol leol, neu grŵp Gwarchod y Gymdogaeth lleol neu grwpiau cymunedol. Bydd aelodau'r grŵp yn cael eu penderfynu yn lleol.

6. Sut y caiff y cynllun ei werthuso?

Ceir anawsterau sylweddol wrth werthuso'r cynllun hwn.

Mae'r cynllun yn ceisio cwtogi ar oryfed yn gymdeithasol. Derbynnir na fydd nifer sylweddol o ddamweiniau ac anafiadau a ddioddefir gan unigolion sy'n feddw yn cael eu hadrodd. Ambell dro mae hyn oherwydd na allant gydnabod y ddamwain neu'r anaf gan eu bod yn feddw, ac nid ydynt yn eu cyflwyno nes eu bod yn sobr, gan roi esboniad arall am yr anaf. Dro arall mae oherwydd amharodrwydd yr unigolion i gael triniaeth pan fo bai arnynt am yr anaf. Er mwyn canfod a yw'r nifer o achosion o gyflwyno anafiadau a gafwyd wrth feddwi wedi gostwng, mae angen i'r partneriaid i'r cynllun weld y ffigurau sy'n gysylltiedig â'r damweiniau a'r anafiadau hynny cyn dechrau'r cynllun. Er bod adrannau damweiniau ac achosion brys efallai'n cadw cofnodion o'r rheiny sy'n cyflwyno eu hunain yn yr uned dan ddylanwad alcohol, mae'n annhebygol iawn y byddant yn cofnodi'r safle lle mae'r unigolion sy'n cyflwyno ei hun yn honni y bu'n yfed ynddo. Mae hefyd yn wir nad yw pobl a anafir wrth feddwi efallai'n cyflwyno eu hunain hyd nes ychydig

ddiwrnodau'n ddiweddarach, pan fydd difrifoldeb yr anaf yn glir, neu fe allant gyflwyno eu hunain i weithiwr iechyd proffesiynol arall, fel nyrsys practis mewn meddygfeydd. Mae'n annhebygol felly y gellir olrhain ffigyrau 'cyn' ac 'ar ôl', ac mae hefyd yn annhebygol y cânt eu cofnodi mewn modd sy'n galluogi eu defnyddio'n ymarferol neu eu cymharu'n ystyrlon.

Efallai y gwêl y rhai sy'n cynnal y cynllun hwn ei bod yn haws cymharu adroddiadau o weithgarwch troseddol a nifer yr arestiadau am ymddygiad meddw mewn ardal ddaearyddol o gwmpas safleoedd sy'n cymryd rhan. Dylai fod gan yr heddlu lleol gofnodion o alwadau a wnaed iddynt ynghylch digwyddiadau honedig a bydd ganddynt gofnodion o arestiadau sy'n gysylltiedig â chyfnod rhedeg y cynllun, y gellir eu cymharu â chyfnod tebyg ar ôl i'r cynllun ddod i ben. Eto, gall fod yn anodd priodoli digwyddiadau i safleoedd penodol, yn enwedig os oes dau safle neu fwy yn agos at ei gilydd, ond gellir defnyddio gostyngiad mewn digwyddiadau a adroddir yn fesur o lwyddiant ar gyfer y cynllun.

Pe bai aelodau partneriaeth y prosiect yn dymuno, gallent wneud gwaith arolwg i ganfod a yw preswylwyr sy'n byw mewn ardaloedd a wasanaethir gan safleoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn teimlo bod amodau'r amgylchedd lleol wedi gwella, a'i bod yn 'fwy diogel' yn yr ardal ers dechrau'r cynllun. Bydd hyn yn seiliedig ar farnau goddrychol, y dylanwadir arnynt gan y cysylltiad y gallai'r sawl a holir fod wedi'i gael â'r rheiny dan ddylanwad alcohol, neu ddifrod i eiddo ayb, a bydd hefyd yn destun cyfnod oedi cyn adnabod a chydnabod gwelliant, ond gellir ei ddefnyddio yn fesur o lwyddiant, yn enwedig os yw'r unigolion yn teimlo'n fwy diogel gyda'r nos, neu os ydynt yn teimlo y gallant fynd i safleoedd yr oeddent yn teimlo na allent o'r blaen oherwydd ofn trais gwirioneddol neu ganfyddadwy.

7. A fydd y cynllun yn cyflwyno gwerth am arian?

Cost fras y prosiect peilot oedd rhyw £6,000. Cafwyd rhan o'r cyllid gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Dyma oedd y gost am logi lleoliadau a lluniaeth ar gyfer y digwyddiadau hyfforddi ac argraffu deunydd a thystysgrifau, cost y placiau a roddwyd yn wobr i'r safleoedd buddugol a chost y noson wobrwyo. Nid yw amser swyddogion wedi'i gynnwys yn y swm hwn. Defnyddiwyd Swyddogion Trwyddedu a heddweision i asesu'r safleoedd ond gan fod meini prawf y Cynllun Gwobrwyo yn bodloni agendâu'r ddwy ochr roeddent yn barod cymryd rhan ac ni aethpwyd i unrhyw gostau yn hyn o beth.

Awgrymir y bydd rhedeg y digwyddiadau i ddefnyddwyr eraill y cynllun yn costio rhyw £ 6,000. Gellid mynd i gostau eraill drwy roi hysbysebion am y Cynllun mewn papurau newydd lleol, ond hyd yn oed wrth ganiatáu ar gyfer amrywiadau felly mae'r gost yn gymharol fach. O ystyried beth yw'r costau i'r heddlu ac i'r GIG o ddelio â damweiniau ac anafiadau sy'n codi o ddigwyddiadau cysylltiedig ag alcohol, fel y trafodwyd ym Mhennod 1, mae'r buddsoddiad y mae ei angen i redeg y cwrs hwn yn fach, a daethpwyd i'r casgliad felly fod yr ymyriad hwn yn cyflwyno gwerth am arian.

Pennod 3

Y Bar Gorau Un – Cynllun Gwobrwyo i hyrwyddo rheoli tai trwyddedig yn gyfrifol a diogel

Yr ymgyrch

Rhedeg Cynllun Gwobrwyo, defnyddio arolygiadau amlasiantaeth i annog trwyddedigion i reoli eu safleoedd mewn modd cyfrifol a diogel, gofalu am eu cwsmeriaid a pheidio ag annog goryfed yn gymdeithasol sy'n aml yn arwain at droseddu a thrais.

Camau rhagarweiniol

Cylch y Cynllun Gwobrwyo:

Mae gan gylch y Cynllun Gwobrwyo saith gwahanol gam

Cam 1 Paratoi, Lansio a Chyhoeddusrwydd
Cam 2 Cam Ymgeisio
Cam 3 Cam Arolygu
Cam 4 Cam Marcio
Cam 5 Cam Beirniadu
Cam 6 Noson Wobrwyo
Cam 7 Cam Adborth a Datblygu

Paratoi, Lansio a Chyhoeddusrwydd

Mae cam cyntaf y cynllun gwobrwyo yn allweddol. Cyn sefydlu'r wobr, mae'n rhaid casglu cefnogaeth, meithrin partneriaethau allweddol a sicrhau cyllid. Yn y prosiect peilot roedd yr heddlu lleol, adran drwyddedu'r awdurdod lleol, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Rheolwyr Canol Tref a Chynlluniau Gwarchod Tafarndai lleol i gyd yn cefnogi'r Gwobrau. Darparwyd cyllid ar gyfer y Gwobrau gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r awdurdod lleol. Gall fod yn werth datblygu Grŵp Llywio neu Weithgor sy'n cynnwys y partneriaid allweddol, gan eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflwyno'r gwobrau.

Nawdd

Gan fod y cynllun gwobrwyo am wneud yr economi nos yn fwy diogel, dylai helpu i wneud yr amgylchedd masnachu lleol yn gryfach, ac mae ganddo'r potensial i ddenu preswylwyr, twristiaid a defnyddwyr newydd a allai ddod i'r ardal i siopa neu gymdeithasu.

O ganlyniad, nid oes angen i gefnogwyr y wobr fod yn gynrychiolwyr y diwydiant alcohol lleol yn unig. Gellir ystyried gorsaf radio leol, gwestai, mannau adwerthu, sinemâu, theatrau a bwytai i gyd i noddi'r cynllun gwobrwyo.

Gellir hefyd ceisio nawdd mewn nwyddau gan sefydliadau a busnesau. Er enghraifft, ym Manceinion, lle dechreuodd y Gwobrau, darparodd cwmni radio lleol nawdd mewn nwyddau drwy drefnu'r adloniant a'r gerddoriaeth ar gyfer y cinio gwobrwyo a thrwy hyrwyddo'r gwobrau ar eu gorsaf radio leol. Yn gyfnewid, gallai'r cwmni arddangos eu logo ar ddeunydd ysgrifennu'r gwobrau.

Gallai'r wobr gael statws hefyd drwy gael ei hardystio gan y cyngor lleol, yr heddlu a'r grŵp gwarchod tafarndai. Bydd y sefydliadau hyn yn rhoi statws a chydnabyddiaeth i'r gwobrau a hynny, yn ei dro, yn ychwanegu gwerth.

Cyhoeddusrwydd cyn Lansio

Yn ddelfrydol, bydd y cyhoeddusrwydd yn dechrau fis cyn y dyddiad lansio. Os dechreuir lawer cyn hynny, gallai'r sylw gael ei dynnu i rywle arall, a chollir y momentwm.

Dengys profiad mewn ardaloedd eraill sydd wedi lansio cynlluniau gwobrwyo lleol y gall fod yn anodd cyffroi a chyflawni lefel uchel o ddiddordeb a chyfranogiad yn y camau cyntaf hyn, yn benodol os dyma yw blwyddyn gyntaf y wobr. Argymhellir felly y dylai cyhoeddusrwydd ddechrau gyda swp-lythyrau i bob tŷ trwyddedig cymwys yn yr ardal darged. Mae'n ddigon tebyg y bydd angen dau swp o lythyrau i hybu ymwybyddiaeth am y gwobrau. Dangosir enghraifft o'r swp-lythyrau a ddefnyddiwyd i hysbysebu lansio'r cynllun gwobrwyo yn yr ardal beilot yn Atodiad 1. Un dull cyhoeddusrwydd arall yw llunio taflen hysbysebu sy'n egluro ac yn hyrwyddo'r wobr. Mae ochr chwith y daflen yn egluro diben y gwobrau tra bo'r ochr dde yn eu trafod o safbwynt 'pa fantais sydd gan hyn i mi?' - dengys Atodiad 2 y daflen a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot.

Lansio'r Gwobrau

Amcan y digwyddiad lansio yw rhoi cyhoeddusrwydd i'r broses wobrwyo a dosbarthu'r ffurflenni cais cyntaf. Mae hefyd yn gyfle i egluro a gwerthu'r gwobrau i'r gynulleidfa a wahoddwyd ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gan yr ymgeiswyr. Bydd y lansiad yn gyfle arall i rwydweithio a meithrin partneriaethau rhwng pawb sydd â diddordeb.

Cam Ymgeisio

Cam Un: Ffurflen Gais

Mae ffurflen gais y Cynllun Gwobrwyo yn mynd i'r afael ag ystod eang o faterion y dylai tai trwyddedig a reolir yn dda gael polisi ystyriol yn eu cylch.

Bydd pob ymgeisydd yn llenwi llyfryn gan ateb nifer o gwestiynau allweddol am weithrediad y safle o ran amryw bynciau, gan gynnwys 4 amcan y Ddeddf Drwyddedu y soniwyd amdanynt uchod. Yn Atodiad 3 gwelir y llyfryn i'w lenwi. Mae'r ffurflen yn ddogfen fyw a fydd yn newid yn flynyddol ar ôl ymgynghori, er mwyn iddi fynd i'r afael ag ystod o achosion pryder; adlewyrchu arfer gorau sy'n newid a chodi'r safonau yn araf un flwyddyn ar ôl y llall. Mae'r ffurflen gais hefyd yn gofyn i'r ymgeisydd roi ei hun mewn categori 'bar', 'tafarn' neu 'glwb nos'. Mae'r mecanwaith hwn yn sicrhau cymharu safleoedd tebyg yn unig.

Ar ôl ei llenwi, bydd y lleoliad wedi trafod pob mater y dylai fod wedi'i ystyried wrth lunio rhaglen weithredu ystyrlon. Yn y pen draw, mae ganddi'r potensial i gysoni safonau drwy ardal benodol gyfan.

Y cinio gwobrwyo fydd yr achlysur cyntaf pan fydd y ffurflen gais ar gael. Cofnodir ar y diwrnod lansio sawl ffurflen a ddosbarthwyd ac i bwy. Cyn gynted â phosibl ar ôl y lansio,

dylid anfon ceisiadau at yr holl dai trwyddedig eraill yn yr ardaloedd peilot. Argymhellir caniatáu mis ar y mwyaf i lenwi a dychwelyd y ffurflenni.

Yn yr amserlen cyflwyno gwobrau, caniateir ar gyfer 'mynd ar ôl ceisiadau'. Pan lansiwyd cynllun tebyg, canfuwyd y gallai'r nifer sy'n ymuno fod yn is na'r disgwyl oni chynhwysir rhywfaint o amser i fynd ar ôl pobl dros y ffôn, pa mor eang bynnag y bo'r cyhoeddusrwydd cyn y lansiad. Argymhellir bod galwadau i brif swyddfeydd a swyddfeydd rhanbarthol cwmnïau yn ddull defnyddiol o annog rhai o'r trwyddedigion arafach.

Efallai yr hoffai'r partneriaid i'r cynllun ystyried codi tâl bychan am fynediad i'r gwobrau. Mae codi £30 y cais yn ddigon i adennill rhai o'r costau a gafwyd wrth argraffu ffurflenni cais, deunydd cyhoeddusrwydd, llunio tystysgrifau, placiau, costau postio ayb. Awgrymir bod talu ffi fynediad, pa mor isel bynnag y bo, bob amser yn llwyddo i ddangos bwriad difrifol y safleoedd sy'n ymgeisio am achrediad. Mae hefyd yn helpu i danlinellu nad gwobr 'rhad ac am ddim' mo hon, ond cydnabyddiaeth ystyrlon y mae'n rhaid ei hennill.

Bydd dogfen 'Nodiadau Cyfarwyddo' gynhwysfawr yn dod gyda'r ffurflen gais er mwyn sicrhau safonau marciau a beirniadu cyson ar draws yr ystod lawn o fannau adwerthu alcohol o'r bar prysur yng nghanol trefi i'r tŷ trwyddedig cymunedol gwledig bach. Mae'r Nodyn Cyfarwyddo a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot i'w weld yn Atodiad 4.

Cam Dau: Proses Asesu

Ar ôl i'r ffurflenni cais gael eu llenwi a'u dychwelyd, y cam nesaf yn y broses yw ymweld â phob safle er mwyn dilysu'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gais.

Bydd tîm o ddau aseswr achrededig yn ymweld â'r safleoedd sy'n ymgeisio am y wobr. Bydd yr aseswyr wedi'u dewis o blith yr heddlu a'r awdurdod lleol.

Sicrheir ymagwedd gyson drwy ddefnyddio ffurflen gais, nodiadau cyfarwyddo ac atodlen farcio gyffredin. Mae'r Llyfryn Sgorio a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot i'w weld yn Atodiad 5. Drwy ddefnyddio'r dogfennau hyn, gall yr aseswyr gofnodi tystiolaeth o unrhyw syniadau newydd ac arloesol sy'n gwneud safleoedd yn fwy diogel. Felly, nid cynorthwyo cysondeb er mwyn sicrhau dilysrwydd unrhyw feincnod y mae'r canllaw yn unig, ond mae hefyd yn helpu'r broses wobrwyo i ddatblygu a bod yn ddynamig drwy gofnodi arferion, y gellir eu lledaenu'n ehangach a'u cynnwys yn ffurflenni cais y dyfodol.

Gellir disgwyl i bob un o'r ymweliadau arolygu gymryd o leiaf awr gan ganiatáu ar gyfer awr arall i glirio unrhyw amwysedd, trafod a marcio. Os defnyddir dau aseswr ar gyfer pob ymweliad, gellir cynhyrchu amserlen fras o alw disgwyliedig. Er enghraifft, os yw 30 safle yn ymgeisio am achrediad mewn ardal, yna bydd galw am 60 awr (2 awr x 30 safle) ar gyfer 2 aelod o staff.

Ar gyfer yr enghraifft hon byddai'n ddoeth caniatáu 3 wythnos yn y cam arolygu er mwyn i'r 30 safle gael eu harolygu gan ddau aelod o staff. Dylid caniatáu hefyd o leiaf wythnos o amser wrth gefn rhag ofn bod anawsterau'n codi wrth wneud apwyntiadau a sicrhau bod y trwyddedigion a'r aseswyr ar gael ar yr un pryd.

Ymweliad Arolygu

Mae'n bwysig bod yr aseswyr yn eistedd gyda'i gilydd cyn ymweliad ac yn trafod y ffurflen gais wedi'i llenwi. Dylent ddechrau cyfeirio'r ffurflen gais at y daflen sgorio a nodi unrhyw

gwestiynau yr hoffent eu gofyn i'r trwyddedai, gan nodi hepgoriadau neu unrhyw amwysedd y mae angen eu hegluro.

Dylid gwneud apwyntiadau i weld trwyddedai ac arolygu ei safle yn ystod oriau busnes arferol (h.y. 9 am i 5 pm). Bydd hyn yn helpu'r trwyddedai gan ei fod yn ystod amser masnachu tawelach ei ddiwrnod gwaith. Wrth wneud apwyntiad nid oes angen gweld y safle ar ei brysuraf, na cheisio ei 'ddal ar ei waethaf' drwy ymweld am 2 o'r gloch y bore.

Yr unig ddiben yw cynnal archwiliad o'r systemau a'r broses reoli sydd ar waith. Dylai'r profiad fod yn gadarnhaol ac yn addysgiadol i'r trwyddedai a'r aseswr fel ei gilydd. Mae'n well gwneud hyn ar adeg dawel pan nad yw'r safle'n llawn cwsmeriaid.

Dylai strwythur yr ymweliad ddilyn y broses gam wrth gam a amlinellir yn y llyfryn sgorio (Atodiad 5) gan holi'r trwyddedai, yr aelodau staff a cheisio tystiolaeth fel y cyfarwyddir gan y llyfryn a nodiadau cyfarwyddo'r aseswr.

Cam Tri: Proses Farcio

Ar ôl yr ymweliadau asesu, dylid marcio'r ffurflenni cais a'u trefnu yn ôl eu sgôr. I sicrhau bod y cynllun gwobrwyo yn berthnasol mewn ystod eang o fannau adwerthu, dylid ond cymharu safleoedd â'r rheiny sydd yn yr un categori.

Yn y prosiect peilot defnyddiwyd tri chategori asesu yr oedd y safleoedd yn eu dewis eu hunain, sef 'Clwb Nos', 'Tafarn' neu 'Far'.

Dylid rhoi achrediad i'r holl safleoedd sy'n bodloni'r safon ofynnol – h.y. y rhai sydd wedi bodloni'r holl 'feini prawf hanfodol' a restrwyd yn y Nodiadau Cyfarwyddo marcio. Mae hawl gan y safleoedd hyn i arddangos y plac a'r dystysgrif briodol (Atodiad 6) y tu allan i'w lleoliad am y deuddeg mis canlynol i hysbysebu eu marc achredu Bar Gorau Un swyddogol.

Yna caiff y pum safle gorau, neu ba bynnag nifer sy'n briodol ym marn partneriaid y cynllun (gan ddibynnu sawl un sy'n ymgeisio), ym mhob categori eu cyfuno ac ânt ymlaen i'r noson feirniadu.

Cam Pedwar: Proses Feirniadu

Ar wahân i sicrhau gwrthrychedd, bwriad y noson feirniadu yw datblygu'r broses bartneriaeth ymhellach a sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cymryd rhan. Gall y panel gynnwys cynghorydd, pobl fusnes leol, heddlu lleol, noddwyr allweddol, swyddog trwyddedu a'r cyfryngau.

Dylid penderfynu'n lleol sut i ddyfarnu'r gwobrau ond mae'n hanfodol bod y broses yn glir ac yn dryloyw. Awgrymir bod angen gwobrwyo gwobr 'gorau mewn categori' ar gyfer pob un o'r categorïau 'tafarn', 'clwb' a 'bar', a gwobr gyffredinol Y Bar Gorau Un. Gellid hefyd cael mwy o wobrau lleol i'r goreuon mewn ardaloedd daearyddol penodol ar gyfer pob categori, ond eto, rhaid penderfynu hyn yn lleol, a bydd yn dibynnu a oes adnoddau ar gael i dalu am y tystysgrifau a'r placiau i'w gwobrwyo.

Cam 5: Noson Wobrwyo
Cyflwynir y gwobrau mewn noson wobrwyo uchel ei phroffil i atgyfnerthu pwysigrwydd a statws y broses. Eto cynllunnir hyn i fod yn ddigwyddiad cofiadwy ar y calendr cymdeithasol lleol ac yn ddathliad o arfer da ac adwerthu alcohol cyfrifol.

Cam Adborth a Datblygu:

Mae'r cam hwn yn ymwneud ag ôl-drafod, canfod arfer da a gweithio gyda'r safleoedd hynny a fethodd gael achrediad. Mae angen ystyried mecanwaith ffurfiol ar gyfer dethol enghreifftiau o arfer da a ddatgelir yn ystod yr arolygiadau. Dylid lledaenu enghreifftiau o arfer da yn lleol er mwyn i dai trwyddedig eraill eu hystyried.

Dylid ystyried cynnal cyfarfod rhwng trefnwyr y cynllun gwobrwyo a'r tai trwyddedig a fethodd fodloni'r safon ofynnol er mwyn gweithio trwy'r problemau hynny a'u hataliodd rhag cyrraedd y safon benodedig. Rhagwelir y bydd trefnwyr y cynllun gwobrwyo yn helpu'r trwyddedigion yn y cyfarfod i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn gwella eu perfformiad ar gyfer y cylch gwobrwyo nesaf. Mae hyn oll yn rhan o broses ddatblygiadol ac addysgiadol y cynllun gwobrwyo.

Atodiad 1

DEAR LICENSEE

The Community Safety Partnership would like to invite you to Rhondda Cynon Taf's Best Bar None Awards launch on Friday 27th January 2006 at 12 noon. The Launch will be held at the Safety Zone, Treforest Industrial Estate. Come along to find out about the awards and how you can be a winner.

The 2006 awards are open to all licensed premises in Pontypridd, Aberdare and Porth town centres, with the venues competing to be the best managed.

The 2006 awards night itself will be held in March/April 2006.

Please confirm your attendance at the launch by calling Derek James on 01443 425367.

Rhondda Cynon Taf
Community Safety Partnership
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

Atodiaid 2

WHAT'S IT ALL ABOUT?

Rhondda Cynon Taf Community Safety Partnership are launching the first Best Bar None Awards scheme in Wales that seeks to establish a standard of excellence within the licensing trade in Rhondda Cynon Taf Town Centres.

We want to reduce incidents of crime and disorder associated with the consumption of alcohol in Rhondda Cynon Taf venues. We also want to promote Rhondda Cynon Taf as a safe and professional environment in which to live, work, visit and socialise.

The aim is to operate a scheme, which rewards good and safe licensed venues, whilst providing a vehicle for the police and local authority to work in a positive partnership with the licensed trade.

The proposal is to introduce an annual high profile award scheme, initially focusing on those premises in Rhondda Cynon Taf Town Centres. The scheme will be launched on the 27th January 2006 at The Safety Zone, Treforest Industrial Estate at 12 noon. The first awards will be presented at a formal dinner on a date to be fixed in March/April 2006.

The administration process for the awards will consist of the completion of an application form, followed by an inspection visit of each premises in order to verify details. All applicants reaching a set objective standard will be presented to a high profile panel of judges.

WHAT'S IN IT FOR YOU?

The chance to be part of a ground breaking scheme with the potential for future national accreditation.

The chance to prove you run a safe and responsible licensed premises to high professional standards of customer care, by achieving independent recognition for your business.

The chance to qualify for cheaper business insurance; If you are a BEDA member and become accredited under the Best Bar None scheme you may be eligible for significant reductions in your insurance premiums.

The opportunity to use the scheme to promote your venue to retain and attract customers. Premises accredited under the scheme will receive a plaque and certificate for public display.

Accredited venues will also be able to include the Best Bar None award logo in their own promotional advertising and stationery.

The chance to prove that you are serious about working in partnership with others towards the creation of a safer, more inclusive Rhondda Cynon Taf.

Rhondda Cynon Taf
Community Safety Partnership
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

Atodiad 3

No Welsh translation available – go to Best Bar None Application Form

Atodiad 4

No Welsh Translation avaialble – go to Guidance Notes

Atodaid 5

No Welsh Translation avaialble – go to Best Bar None Scoring Sheet

Atodiaid 6

RHONDDA CYNON TAFF BEST BAR NONE

NAME OF BAR, CLUB OR PUB

OVERALL WINNER 2006